# CYLCHLYTHYR PWYLLGOR DEINTYDDOL CYMRU

# PDC

## Ebrill 2026



## Cymunedol o'r Cychwyn

**Mae Cymunedol o'r Cychwyn yn ddull cynllunio gwasanaethau strategol a ddatblygwyd drwy'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yng Nghymru, o dan arweiniad GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Ei ddiben yw ailgynllunio gwasanaethau iechyd a gofal fel bod gofal yn cael ei ddarparu mor agos at gartrefi pobl â phosibl, gydag ysbytai dim ond yn cael eu defnyddio pan fydd hynny'n glinigol angenrheidiol.**

**Yn ei hanfod, mae Cymunedol o'r Cychwyn yn dechrau o'r rhagdybiaeth 'Os gellir darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol yn y gymuned, dylid gwneud hynny.'**

**Mae'r dull yn cael ei gymhwyso i lwybrau clinigol a gwasanaeth penodol, gan gynnwys:**

- **Diagnosteg a ddarperir yn nes at y cartref**
- **Ymyriadau clinigol yn y gymuned**
- **Rheoli meddyginiaethau a gofal a rennir**
- **Cyngor ac offer gwneud penderfyniadau a rennir yn y gymuned**
- **Ailfeddwl am fonitro ac adolygiadau rheolaidd**
- **Rheoli risg yn well i gefnogi gofal cymunedol**
- **Galluogwyr digidol fel cofnodion a rennir**

## Ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol

Cafodd Cymunedol o'r Cychwyn ei ddatblygu mewn ymateb i sawl blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru:

- Cymru Iachach – symud y system tuag at atal, ymyrryd yn gynnar a llesiant
- Galw a chymhlethdod cynyddol mewn gofal eilaidd
- Anghydraddoldebau iechyd rhwng cymunedau
- Pwysau'r gweithlu a'r angen am well gweithio amlddisgyblaethol
- Cymru Sero Net, drwy leihau teithio diangen i'r ysbyty a llwybrau gofal sy'n ddwys o ran carbon
- Mae'r dull yn cyd-fynd yn agos â Model Gofal Sylfaenol i Gymru a gweithio ar sail clystyrau.

**Ni fydd Cymunedol o'r Cychwyn yn ailgynllunio gwasanaethau deintyddol yn uniongyrchol, ond bydd yn ail-lunio'r amgylchedd y mae deintyddiaeth y GIG yn gweithredu ynddo.**

# Fforwm Cynghori Strategol (SAF) - Cynlluniau ar gyfer y dyfodol a llywodraethu

IYng Nghymru, mae llawer o'r arbenigeddau yn cael eu cynrychioli gan Fforymau Cynghori Strategol (SAF) a sefydlwyd o dan Bwyllgor Deintyddol Cymru yn 2011, yn dilyn adolygiad gan GIG Lloegr o wasanaethau arbenigol ac ar gais y Prif Swyddog Deintyddol ar y pryd, David Thomas. Nid yw'r fforymau hyn erioed wedi meddu ar statws statudol na chyfrifoldeb llywodraethol ffurfiol. Ar gais y Grŵp Goruchwylio Strategol Deintyddol, cafodd Pwyllgor Deintyddol Cymru y dasg o sefydlu rôl a llywodraethu parhaus y fforymau.

**Mynegodd aelodau Pwyllgor Deintyddol Cymru fod y SAF yn parhau i ddarparu gwerth sylweddol ac y dylid cefnogi a datblygu ei waith.**

Bwriad gwreiddiol y SAF oedd fel dull tymor byr i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Rhwydweithiau Clinigol a Reolir (MCN) ac i ddarparu cyngor ar wasanaethau arbenigol. Mae MCN rhanbarthol bellach yn sefydledig ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau, ac yn bwydo i mewn i SAF cenedlaethol. Mae strwythur deuol MCN a SAF yn creu cymhlethdod mewn llywodraethu, gan fod cyfrifoldebau yn cael eu rhannu rhwng cyrff rhanbarthol a chenedlaethol.

Ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer llywodraethu ac arweinyddiaeth barhaus, ac mae gan bob un ohonynt oblygiadau ar gyfer atebolrwydd, dyrannu adnoddau, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Cytunodd yr aelodau nad Pwyllgor Deintyddol Cymru bellach yw'r llwybr mwyaf priodol i'r SAF gynghori Llywodraeth Cymru na rhoi adborth iddi, ac nad dyma fu swyddogaeth ymarferol y grŵp ers peth amser. Yn dilyn trafodaeth, cyrhaeddwyd consensws ar ddull amgen. Nid yw'r term "Fforwm Cynghori Strategol" bellach yn cael ei ystyried yn addas, gan ei fod yn adlewyrchu amgylchiadau ei sefydlu yn hytrach na'i ddiben presennol.

**Wrth symud ymlaen, bydd y gwaith a wnaed yn flaenorol gan y SAF yn cael ei gysoni â rhaglen ddiwygio system barhaus Cymru a'i gynnwys mewn ffrwd waith, gan ddarparu llwybr uniongyrchol a ffurfiol i'r grŵp fwydo i mewn i Lywodraeth Cymru.**

Bydd y Rhwydweithiau Clinigol a Reolir yn parhau i weithredu o dan y byrddau iechyd, gan sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn cael eu darparu'n lleol yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth.

Bydd rhagor o fanylion am y ffrydiau gwaith newydd sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cyfathrebu gan dîm y rhaglen ddiwygio maes o law.

# DEINTYDDIAETH GOFAL ARBENNIG - EDRYCH O GWMPAS AC EDRYCH I'R DYFODOL

Yn ein cyfarfod Pwyllgor Deintyddol Cymru ym mis Mawrth 2026 rhoddodd Akhila Muthukrishnan, Ymgynghorydd mewn Deintyddiaeth Gofal Arbennig y wybodaeth ddiweddaraf gan drafod meysydd fel gweithlu, hyfforddiant, llesiant, amseroedd aros, llwybrau atgyfeirio, gofal iechyd y geg ataliol y tîm amlddisgyblaethol, diogelu, hygyrchedd, a thrawsnewid TG.

**Nodwyd rolau ar gyfer datblygu gwasanaethau i gleifion gofal cleifion gofal arbennig ar gyfer sefydliadau a rhanddeiliaid amrywiol:**

- Addysg a'r gweithlu - LlC, ICC, AaGIC, CDC
- Addysgu a Hyfforddi - LlC, AaGIC, SGD
- Dilyniant gyrfa - GDC
- Amseroedd aros AC - Craffu ac adrodd - LlC, BI, SGD
- Llwybrau atgyfeirio - BI, SGD, meini prawf derbyn a rhyddhau
- Mynediad ffisegol – Ystad, cynllunio- LlC, ICC, BI, SGD
- Trafnidiaeth - LlC, Lywodraeth leol, BI, SGD
- Mynediad at ofal brys - LlC, SGD, BI
- Mynediad digidol - LlC, SGD, BI
- Cyfathrebu - SGD, BI

# IECHYD Y GEG PLANT 5 OED YNG NGHYMRU YN 2024/25

Cyhoeddwyd arolygiad Rhaglen Epidemiolegol Ddeintyddol GIG Cymru o blant blwyddyn ysgol un (5 oed) a gynhaliwyd ledled Cymru yn 2024-25 yn ddiweddar ac mae ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

https://phw.nhs.wales/publications/publications1/oral-health-of-5-year-old-children-in-wales-in-202425/

**Ar y cyfan, bu gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn nifer yr achosion a difrifoldeb pydredd dannedd o 2022/23 i 2024/25.**

**Mae anghydraddoldebau iechyd y geg yn parhau (h.y. mae'r rhai o gefndiroedd tlotach yn profi mwy o glefyd).**



**Tynnodd Akhila Muthukrishnan sylw at enghreifftiau o arfer da:**

- Gweithlu: Clinigau dan arweiniad nyrsys yn GDC Bae Abertawe a Gogledd Cymru.
- Gweithlu: Nyrsys Deintyddol Gofal Arbennig a Therapyddion Deintyddol ym Mae Abertawe
- Llwybrau atgyfeirio: De-ddwyrain Cymru a Bae Abertawe - GDC cartref, GDC tawelyddu
- Tîm Amlddisgyblaethol Atal: Bae Abertawe, De-ddwyrain Cymru: Gofal y Geg mewn Ysbytai - gofal nyrsio
- Tîm Amlddisgyblaethol Atal: De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru - clinigau Hemoffilia, Dysffagia, MRONJ
- Diogelu: Hyfforddiant a datblygu llwybrau 'Heb eu Cludo'
- Mynediad: Clinigau rhithwir, taflenni hawdd eu deall
- Trawsnewid TG: Bae Abertawe - Consultant Connect

# Cyhoeddwyd adnoddau Proffylacsis Gwrthfiotig a Phroblemau Deintyddol Acíwt SDCEP wedi'u diweddaru

## Yn ddiweddar mae Rhaglen Effeithiolrwydd Clinigol yr Alban (SDCEP) wedi cyhoeddi rhifynnau newydd o ddau o'i hadnoddau.

### Proffylacsis Gwrthfiotig yn erbyn Endocarditis Heintus

Mae cyngor wedi'i ddiweddaru SDCEP Proffylacsis Gwrthfiotig yn erbyn Endocarditis Heintus yn cefnogi timau deintyddol i nodi a rheoli gofal deintyddol cleifion sy'n wynebu risg uwch o endocarditis heintus, gyda ffocws ar wneud penderfyniadau a rennir. Mae'r cyngor gweithredu yn cael ei gyflwyno mewn gwefan bwrpasol (www.antibioticprophylaxis.sdcep.org.uk), gydag offer ategol hefyd yn cael ei ddarparu, ac mae'n cael ei gymeradwyo gan sawl un o gymdeithasau cardiaidd y DU.

### Rheoli Problemau Deintyddol Acìwt

Mae'r canllawiau SDCEP wedi'u diweddaru Rheoli Problemau Deintyddol Acíwt yn darparu cymorth penderfynu i nodi unrhyw gyngor neu sylw uniongyrchol i'w rhoi i glaf sy'n cyflwyno gyda phroblem ddeintyddol acíwt, ac i benderfynu ar y darparwr gofal dilynol priodol. Mae'r canllawiau wedi'u bwriadu i'w defnyddio gan amrywiaeth o staff gofal iechyd fel staff ymarfer meddygol cyffredinol, adrannau brys a fferylliaeth, yn ogystal ag aelodau o'r tîm deintyddol. Mae'r canllawiau wedi'u diweddar ar gael drwy wefan bwrpasol (www.acutedentalproblems.sdcep.org.uk).

Mae'r ddau adnodd yn cael eu cydnabod gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a phedwar Prif Swyddog Deintyddol y DU fel rhai sydd â pherthnasedd ledled y DU. Mae cyfadrannau deintyddol Colegau Llawfeddygol Brenhinol y DU hefyd yn cymeradwyo'r adnoddau hyn fel rhai sy'n darparu cyngor proffesiynol dibynadwy, o ansawdd uchel.



**Cadeirydd Pwyllgor Deintyddol Cymru: Adam Porter adam.porter2@wales.nhs.uk**
**Is-gadeirydd Pwyllgor Deintyddol Cymru: Jonathan Carter chairgwentldc@gmail.com**
**Ysgrifennydd Pwyllgor Deintyddol Cymru: Rebecca Evans rebecca.evans034@gov.wales**